Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Summerhill
# The Institute
# New Road
# Summerhill
# Wrexham
# LL11 4TY

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:
**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y ysgol a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Agorwyd Cylch Meithrin Summerhill rhyw ddeng mlynedd yn ôl fel rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Wrecsam. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant Summerhill a'r ardal o gwmpas. Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nag o grŵp ethnig wedi'u cofrestru yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr am bum bore'r wythnos ar gyfer plant dwy a thair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Mae 22 o blant wedi'u cofrestru yn lleoliad gyda naw ohonynt yn blant tair oed. Mae un plentyn yn cael ei ariannu gan y Bartneriaeth.

Saesneg yw iaith y cartref i bob un plentyn. Er mai prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg, defnyddir y Saesneg hefyd yn ôl yr angen.

Cefnogir addysg y plant gan arweinydd ac un ymarferydd. Mae'r ddwy gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell yn Neuadd yr Institute. Mae'n cynnwys ystafell ddysgu, toiledau, cegin a storfeydd. Mae neuadd helaeth hefyd ar gael i'r lleoliad y rhan fwyaf o'r amser. Yn ddiweddar iawn, sefydlwyd ardal chwarae bwrpasol y tu allan ar gyfer defnydd y lleoliad.

Wedi iddynt gwblhau eu hamser yn y lleoliad, bydd y rhan fwyaf o'r plant yn parhau gyda'u haddysg mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg lleol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Awst 2009. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyffredinol yn lleoliad yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd a rhifedd yn dda;
- plant yn gwneud cynnydd da mewn dysgu;
- darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd; a bod
- y lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad pendant i waith y lleoliad;
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn awyddus i gynnal gwelliannau; a bod
- staff yn ymwybodol iawn o ddatblygiadau diweddaf yn y Cyfnod Sylfaen.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 godi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);

A2 annog pob plentyn i ymuno mewn tasgau ffocws;

A3 datblygu hunan-arfarnu ymhellach; a

A4 defnyddir gwybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu, mae llawer o'r plant yn cyflawni'n dda mewn gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer ac yn gwneud cynnydd realistig yn bron pob un maes dysgu. Mae llawer o'r plant wedi datblygu medrau dysgu cadarn ac yn ystod gweithgareddau dewis rhydd, maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau gyda thasgau. Mae'r plant hynaf yn y grŵp yn cymhwyso eu medrau'n bwrpasol mewn ystod o gyd-destunau ac yn datblygu medrau ehangach a rhinweddau personol sydd eu hangen i fanteisio'n llawn ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Mewn sesiynau grŵp, maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus ac yn defnyddio iaith briodol wrth chwarae. Mae pob plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac wedi dechrau arbrofi gyda chreu marciau.

Yn ystod gweithgareddau ymarferol, mae bron pob un plentyn yn dewis a defnyddio syniadau mathemategol yn hyderus ac yn cyfrif hyd at ddeg o wrthrychau gyda chywirdeb cynyddol. Gydag arweiniad, mae llawer o'r plant yn adnabod patrymau a dilyniannau syml ac yn defnyddio nifer gyfyngedig o eirfa fathemategol.

Mae'r holl blant yn gwrando ac yn ymateb i ddeunydd ar chwaraewr cryno ddisgiau yn frwdfrydig iawn ond ar y cyfan, mae eu medrau TGCh yn gyfyng.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn yr iaith Gymraeg gyda phob un ohonynt yn deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Yn ystod sesiynau torfol, mae pob plentyn yn ymuno'n eiddgar iawn mewn caneuon a rhigymau ac yn mwynhau dilyn ac ymateb i storïau.

**Lles: Da**

Mae llawer o'r plant yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Nodwedd amlwg iawn yn y lleoliad yw'r ymddygiad da iawn a'r gofal a chonsyrn mae plant yn dangos tuag at ei gilydd.

Wrth lanhau eu dannedd ar gychwyn pob sesiwn ac wrth fwyta eu byrbryd, dangosa'r plant bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant ddod yn iach. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod bod yr hyn maent yn ei fwyta yn bwysig a bod gweithgarwch corfforol yn llesol i'w hiechyd.

Mae gan yr holl blant berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Wrth ymwneud â thasgau penodedig neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gytûn ac yn dangos lefel da o annibyniaeth. Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir i blant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos i gynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol ar gyfer plant ar draws bron pob maes dysgu. Caiff plant o bob gallu ac oedran eu herio gan weithgareddau perthnasol sy'n darparu dilyniant a pharhad yn eu dysgu ac yn eu galluogi i fentro a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r pob plentyn yn elwa'n sylweddol o'r cyfleoedd niferus a gânt i gaffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd. Mae'r ddarpariaeth yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Fodd bynnag, ychydig o sylw a roddir i ddatblygu medrau TGCh.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddatblygu eu medrau'n dda. Mae'r plant yn ymweld â lleoedd y tu allan i'r lleoliad yn achlysurol ac yn dysgu oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad. Maent i gyd yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad.

Trwy ddathlu gwyliau a thraddodiadau Cymru, datblyga'r plant eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol yn dda. Ni ddarperir digon o gyfleoedd iddynt ddysgu am bobl o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gyfoes o’r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau addas o bob plentyn, gan gynnwys y rheini o allu is. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar draws chwech o'r saith maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau dysgu sy’n sicrhau ymglymiad a diddordeb plant. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant ac maent yn gwneud hynny'n sensitif ac yn fedrus i annog plant i herio'u hunain wrth iddynt ddysgu. Gwneir defnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae ffocws clir i gymorth oedolion ac maent yn cyfrannu’n sylweddol at ansawdd dysgu’r plant.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ar gyfer sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plentyn a’r rhai sy’n cael eu harwain gan ymarferwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o anogaeth i blant ymuno mewn tasgau ffocws.

Er y caiff cynnydd a lles plant eu holrhain yn fanwl ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu, ni ddefnyddir yr wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio camau nesaf yn nysgu plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n anffurfiol am gyflawniadau, lles a datblygiad plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad.  Mae bron pob un yn hapus yn y lleoliad ac yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gymorth ac arweiniad.  Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ceisio gofalu bod anghenion pob unigolyn yn cael eu bodloni.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus.  Mae ethos cynhaliol y lleoliad yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a chyfeillgarwch yn effeithiol iawn ac yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant.  Mae'n llwyddo'n dda i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir iddynt.  Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol a diogelu.  Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i wneud defnydd effeithiol o asiantaethau allweddol.

Roedd adroddiad diwethaf AGGCC yn gadarnhaol iawn ac ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar y cyfer.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.  Mae gan y lleoliad nifer addas o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol  lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'u profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio TGCh, mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r meysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn.  Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan ac yn gymuned eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd addas ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn rhoi cyfeiriad pendant i waith ymarferwyr a phlant.  Mae'n cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad ac yn archwilio sut i'w chyflawni ar y cyd ag eraill.  Mae'n barod iawn i dderbyn cyngor ac yn ymagweddu'n hunan-feirniadol at ei gwaith.  Mae'r addysgu a'r dysgu yn  cael eu rheoli'n dda a gweithredir polisïau'r lleoliad yn gydwybodol.  Mae'r arweinydd yn cefnogi ac yn herio staff yn gadarnhaol ac yn annog pawb i ymdrechu orau y gallant.  Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu,

ymddygiad a pherthynas.  Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.

Mae perthynas gadarnhaol iawn gyda phlant, y rhieni ar ysgol gynradd y bydd y rhan fwyaf o'r plant yn trosglwyddo iddi, yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae pwyllgor rheoli a ffurfiwyd yn ddiweddar yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o'i rôl ac yn gefnogol iawn i waith y lleoliad.  Mae aelodau unigol yn gwybod yn dda am berfformiad y lleoliad ac wedi dechrau ymgymryd â'u cyfrifoldeb o gefnogi'r lleoliad fel cyfaill beirniadol.

Mae deilliannau ar gyfer plant ar y cyfan yn dda.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth briodol o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant.  Maent yn ddiweddar wedi cynnal arfarniad o waith y lleoliad ac wedi defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol mewn cynllun gweithredu i flaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno gwella.  Gydag arweiniad athro ymgynghorol yr ALl, mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.   Fodd bynnag, mae hunan-arfarnu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad a hyd yn hyn, heb arwain at welliannau arwyddocaol yng ngwaith y lleoliad.  Nid yw ychwaith yn rhoi sylw digonol i farn y rhieni.

Mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus gynhwysfawr a ddarperir yn bennaf gan yr ALl a Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM). Mae hyn yn sicrhau fod pob aelod staff yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol iawn o ddatblygiadau diweddaraf yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r ymarferwyr yn rhannu arfer dda o fewn y lleoliad yn gyson ac yn myfyrio ar eu harfer eu hunain.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang iawn o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n arwyddocaol at gyflawniadau a lles plant.  Mae cydweithio cynhyrchiol gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod a chydag ysgol gynradd Gymraeg leol. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i'w cynnwys yn nysgu eu plant.   Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd ac os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.  Trwy'r pwyllgor rheoli, ffurfiwyd cysylltiadau cynhyrchiol iawn gyda nifer o fudiadau yn y gymuned leol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a defnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad.  Rheolir yr adnoddau'n dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth briodol o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu

bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd dau o holiaduron rhieni. Dywed y rhieni eu bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad a'u bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.  Mae'r rhieni'n credu eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a bod y lleoliad yn cael ei reoli'n dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus iawn yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk <http://www.estyn.gov.uk/>)